Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Mill Childcare Centre
Lôn Parcwr
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1BX

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Mr Nicholas Jones**
**Arolygydd cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Ynghylch y lleoliad

Mae'r Mill Childcare Centre yn leoliad dwyieithog wedi'i leoli yn Rhuthun, Sir Ddinbych. Daw'r holl blant sy'n mynychu'r lleoliad o'r dref a'r pentrefi gyfagos. Cydnabyddir bod yr ardal yn freintiedig yn gymdeithasol ac economaidd.

Mae'r lleoliad wedi bod ar y safle yma ers 1996 a chanddo ddefnydd cyfan gwbl o'r adeilad a'r ardaloedd allanol.

Dywed y lleoliad daw tua hanner o'r plant o gefndir lle siaredir y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae'r plant yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig o blant yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r lleoliad yn derbyn cefnogaeth wrth asiantaethau allanol i gefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol. Mae un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ar hyn o bryd a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru am uchafswm o 28 o blant ac yn derbyn plant o ddwy flwydd oed. Mae 12 o blant ar hyn o bryd yn mynychu'r lleoliad ar rhyw adeg o'r wythnos. Mae pedwar ohonynt yn dair blwydd oed. Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi'r lleoliad.

Mae'r arweinydd yn ei swydd ers 2006. Mae tri aelod o staff yn ei cynorthwyo ac mae ganddynt pob un cymwysterau addas.

Ceir llyfryn llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n eu darparu â manylion y lleoliad. Daw rhieni a gofalwyr â'u plant i mewn i'r lleoliad sy'n gyfle i gael cyfarfod â'r staff os oes angen. Mae'r lleoliad ar agor am bump diwrnod yr wythnos rhwng 8 y bore a 5.30 y prynhawn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r perchennog a'r rheolwr yn goruchwylio gwaith y lleoliad.

Arolygwyd y lleoliad diwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Medi 2011. Rhoddwyd y lefel uchaf o'r wobr ansawdd iddynt ym mis Tachwedd 2011 wrth 'The National Day Nurseries Association'. Hefyd, rhoddwyd y safon Buddsoddwyr mewn Pobl i'r lleoliad ym mis Mawrth 2011. Nid yw'r lleoliad wedi ei arolygu gan Estyn o'r blaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda iawn;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- mae adnoddau da ar gael, tu fewn a thu allan;
- mae'r oedolion yn siarad Cymraeg yn dda sy'n cael effaith bositif ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith;
- mae'r lleoliad yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda;
- mae perthynas dda iawn rhwng oedolion a phlant;
- mae cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgolion lleol, colegau a'r awdurdod lleol; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol iawn ac mae pob un yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r arweinyddiaeth a'r staff yn darparu cyfeiriad positif i waith y lleoliad;
- dengys newidiadau a datblygiadau dros amser fod gan y lleoliad gofnod da o wella er lles y plant;
- mae gan yr holl staff agweddau gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant;
- mae llinellau cymorth da yn cael eu defnyddio'n rheolaidd; ac
- mae'r amgylchedd dysgu'n ysgogol a heriol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 gosod amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant cliriach i'r plant ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws sy'n gysylltiedig a'r meysydd dysgu; a

A2 defnyddio meini prawf llwyddiant a llinyn amser manwl i dargedu ardaloedd i wella yn y cynlluniau datblygu.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Mae gan y plant ddealltwriaeth briodol yn unol â'u hoedran o sut gallant gadw'n iach. Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd da ar gyfer datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm.

Gosodir amser yn wythnosol i'r holl staff gyfarfod i gynllunio`r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a diddorol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg, yn briodol ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Caiff cyfleoedd gwerthfawr eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y lleoliad er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunan hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Mae hyn yn agwedd positif iawn o'r ddarpariaeth.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol yn cynnwys cyfleoedd i'r holl blant ddatblygu parch at ei gilydd; cyfleoedd i ffurfio perthynas dda a'i gilydd ac oedolion; a chyfleoedd iddynt fod yn oddefgar o'i gilydd.

Darperir gweithgareddau da iawn i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, dealltwriaeth o'r byd, medrau corfforol a chreadigol. Agwedd effeithiol o brofiadau dysgu'r plant yw'r ddarpariaeth a wneir i'r plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Nid Cymraeg yw iaith naturiol y cyfathrebu rhwng yr

oedolion a'r plant, fodd bynnag, trwy'r cyfleoedd cydlynus, mae bron pob un plentyn, beth bynnag bo'u cefndir, yn dangos eu bod yn mwynhau siarad yr iaith.

Mae gan blant ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau heriol fel paratoi bwyd, sy'n canolbwyntio ar les.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth da o'r byd ehangach a chodi'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang sy'n briodol i'w hoedran yn effeithiol.

Caiff yr holl blant gyfleoedd da iawn i hau hadau, i ofalu am blanhigion ac ail-gylchu. Mae hyn yn dechrau eu deall am dyfiant planhigion a chynaladwyedd yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dangos bod gan staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant. Mae perthynas positif iawn rhwng yr holl staff a'r plant.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r disgwyliadau yma yn cael eu gwireddu yn ymarferol dda. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, wrth gyflwyno gweithgaredd, nid oes digon o gyfeiriadau tuag at yr amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant y gweithgaredd.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn golygu bod gan staff wybodaeth fanwl o nifer fach o blant ac fel canlyniad yn ymwybodol iawn o'u cyflawniadau a'u cynnydd.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.

Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol i lefelau datblygiad y plant ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae safonau Cymraeg y staff yn dda. Mae'r staff yn darparu amgylchedd ysgogol iawn sy'n sicrhau'n llwyddiannus bod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n drwyadl ac effeithlon. Mae cofnodion o gyflawniadau'r plant ar gael i rieni ar unrhyw amser. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Wrth gyrraedd maen nhw'n dangos synnwyr o ddisgwyliad ac yn awyddus i gymryd rhan. Maen nhw'n ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae'r cwricwlwm eang, sy'n

cynnwys ymwelwyr ac ymweliadau, yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant yn dda.

Mae'r gwaith dilynol yn y dosbarth yn dangos yr ystod eang o brofiadau sy'n codi o'u gweithgareddau a synnwyr y plant o ryfeddu. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r lleoliad yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu meithrin drwy'r weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae'r holl blant yn gwybod, deall ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill fel aelodau o gymdeithas. Mae plant unigol, yn eu tro, yn derbyn cyfrifoldebau penodol sy'n datblygu eu hunan barch. Mae'r lleoliad yn uned drefnus lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn dda, sy'n cynnwys arferion a thraddodiadau Cymreig ac yn ymestyn i ddiwylliannau eraill wrth i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae staff y lleoliad yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Maent yn gwneud defnydd o gymorth ac arweiniad proffesiynol yn effeithiol pan bo'r angen. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol. Ymdrinir y staff yn rheolaidd ag asesiadau risg trwyadl.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, lle mae'r drws ar glo a dim ond aelod o staff sy'n ei agor, felly, nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae gofal da yn cael ei gymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol yn cael ei nodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos. Rheolwr y lleoliad yw'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg.

Defnyddir asiantaethau allanol a darperir cefnogaeth os oes angen. Ar hyn o bryd, ychydig o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy ei gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a mabwysiadir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif iawn. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei adnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm o ansawdd ysgogol sy'n cael ei gyfoethogi gan ddarpariaeth dda yn yr ardaloedd allanol diddorol.

Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad

cadarnhaol sydd wedi dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal.

Mae gan staff y lleoliad cymwysterau a phrofiad da ac mae cymhareb oedolyn i blentyn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb.

Defnyddir yr amgylchedd lleol ac adnoddau'r lleoliad yn dda iawn ac yn rheolaidd sy'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn cynnwys yr holl staff yn y cynllunio sy'n sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd. Mae'r arweinydd yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir a synnwyr o bwrpas i waith y lleoliad. Ceir yma ethos positif ac ymrwymiad i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant.

Mae'r arweinyddiaeth y ganolfan a'r staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion plant ac mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus ac ymarferol. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sydd wedi effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth.

Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni a gofalwyr. Maent yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant.

Mae strwythur rheoli yn bodoli sydd wedi'i sefydlu'n dda gyda diffiniad clir o ddyletswyddau. Mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn dyletswyddo cyfrifoldebau yn effeithiol i eraill pan bo eisiau gwneud. Mae rheolwyr y ganolfan yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol ac yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae'r lleoliad wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, mae wedi gwneud defnydd da o gyfleoedd i weithio gyda'r ysgolion lleol, colegau a'r awdurdod lleol i sicrhau cysylltiadau effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r lleoliad yn hunan arfarnu'n briodol ac yn nodi meysydd i wella trwy eu gweithredu er lles y plant. Mae hyn wedi cynnwys datblygu'r ardaloedd allanol i wella ardaloedd cadw ac i ymestyn profiadau'r plant a datblygu eu hannibyniaeth.

Fodd bynnag, nid ydy'r ardaloedd i wella yn cael eu targedu yn effeithiol yn erbyn meini prawf llwyddiant a llinyn amser perthnasol yng nghynlluniau datblygu'r lleoliad.

Mae'r staff wedi gwneud defnydd da iawn o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys cymwysterau galwedigaethol, sy'n cael effaith adeiladol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r rheini, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn sylwadau, yn mynegi eu boddhad llwyr â'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'n fawr safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgolion lleol, y colegau a'r awdurdod lleol yn dda.

Mae'r lleoliad yn elwa o'r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i ddatblygu'r lleoliad ac wedi cyfrannu at y safonau uchel cyfredol o ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae staff y lleoliad yn addysgu'n dda ac yn cyd-weithio'n effeithiol iawn. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac fel canlyniad gwneir y mwyaf o arbenigedd unigolion.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau ac fe'u defnyddir yn dda iawn i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae'r lleoliad yn darparu profiadau ysgogol, sydd wedi cael eu cynllunio'n dda, yn yr awyr agored. Mae'r tîm rheoli yn arwain yn effeithiol a defnyddio asiantaethau cynorthwyol yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd saith holiadur eu dychwelyd. Mae'r sylwadau ychwanegol yn nodi eu cefnogaeth cadarnhaol iawn o'r lleoliad. Mae bron pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn arbennig o fodlon gyda phob agwedd o'r lleoliad, yn enwedig y gofal a ddarperir a chynnydd eu plant.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r holl blant yn hapus yn y lleoliad. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â'u cyfoedion. Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod ganddynt dasgau heriol sy'n ennyn eu diddordeb.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)